# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-01-11)**

## CA 512 :  Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2010

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-wneud Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006. Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC sy'n gwneud yn ofynnol bod Aelod-wladwriaethau'n codi ffioedd i dalu costau'r gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion ar fewnforion penodol o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o drydydd gwledydd a nodir yn y Gyfarwyddeb.

### Craffu Technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Mae Rheoliad 1 (3) y testun Cymraeg yn datgan bod y Rheoliadau'n dod i rym ar 1 Ionawr 2010.

Rheol Sefydlog 15.2 (vi): ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

2. Mae Rheoliad 1 (2) y testun Saesneg a rheoliad 1 (2) y testun Cymraeg yn cynnwys darpariaethau gwahanol, felly ni allent gael eu cymharu a'u dadansoddi yn yr un modd. Mae'r ddarpariaeth gywir gymharol i reoliad 1 (2) y fersiwn Saesneg yn ymddangos yn rheoliad 1 (3) yn y testun Cymraeg.

Rheol Sefydlog 15.2 (vi): ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

3. Mae'r testun Cymraeg ar gyfer rheoliad 5 (d) yn cynnwys teitl anghywir mewn perthynas â diddymu rheoliadau. Y teitl cywir yw'r un yn rheoliad 5 (e) yn fersiwn Saesneg y testun lle cyfeirir at y rheoliadau fel "the Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2009". Mae'r fersiwn Cymraeg yn cyfeirio at y Rheoliadau hyn fel "Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2009, sy'n golygu "the Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) (No. 2) (Amendment) Regulations 2009" yn Saesneg.

Rheol Sefydlog 15.1 (vi): ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

### Craffu ar rinweddau

Ni chafodd unrhyw bwyntiau eu nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Rhagfyr 2010**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:

Bwriada'r Llywodraeth gywiro'r pwyntiau a godwyd yn yr Adroddiad wrth gyhoeddi'r Rheoliadau am y rhesymau canlynol:

Mae'r dyddiad dod i rym yn rheoliad 1(2) i rym o'r testun Cymraeg yn amlwg yn wall, a gellid ei gywiro ar y sail bod y dyddiad dod i rym ym mhenawdau'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg fel ei gilydd yn cael ei nodi fel 1 Ionawr 2011/1 January 2011.  Yn ogystal, yn y testun Saesneg yn rheoliad 1(2), mae'r dyddiad dod i rym wedi ei nodi'n gywir fel 1 January 2011  Felly nid oes modd amau beth yw'r dyddiad cywir o ran dyddiad dod i rym.

Caiff trefn rheoliadau 1(2) a (3) yn y testun Cymraeg ei hailosod wrth gyhoeddi i gyd-fynd â threfn y testun Saesneg.  Nid yw hyn yn effeithio ar ddarpariaethau gweithredol rheoliad 1 fel cyfanwaith, ond bydd yn galluogi croesgyfeirio cywir rhwng y ddau destun.

Mae enw Cymraeg Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009 yn rheoliad 5(d) (y testun Cymraeg) yn wall y gellid ei gywiro gan nad oes modd amau at ba Reoliadau y mae'r cyfeiriad hwn yn cyfeirio atynt.  Mae troednodyn y Rheoliad hwnnw yn nodi mai'r offeryn sydd dan sylw yw O.S. 2009/3140 (Cy. 273) (sef  Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009.  Yn ogystal, mae'r testun Saesneg yn rheoliad 5(e) yn nodi enw Rheoliadau 2009 yn gywir ac yn rhoi'r troednodyn cyfatebol, ac felly nid oes unrhyw amheuaeth beth oedd diben cywir rheoliad 5(d) testun Cymraeg y Rheoliadau.